OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2709

# Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliadau 22 a 23, i rym ar 31 Hydref 2014.

(3) Daw rheoliadau 22 a 23 i rym ar 23 Chwefror 2015.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod" ("*member*") yw aelod o bwyllgor a benodir neu a etholir yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "awdurdod" ("*authority*"), mewn perthynas ag uned, yw'r awdurdod lleol y cynhelir yr uned ganddo;

ystyr "clerc y pwyllgor" ("*clerk to the committee*") yw clerc a benodir i bwyllgor yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**1**);

ystyr "cynrychiolydd ysgol" ("*school representative*") yw person sy'n llywodraethwr neu'n aelod o staff ysgol a gynhelir yn y gymuned a wasanaethir gan yr uned (neu, yn ôl y digwydd, y grŵp o unedau);

ystyr "grŵp o unedau" ("*group of units*") yw dwy neu ragor o unedau a reolir gan yr un pwyllgor yn unol â rheoliad 4;

ystyr "offeryn llywodraethu" ("*instrument of government*") yw offeryn llywodraethu uned, neu grŵp o unedau, a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "pwyllgor" ("*committee*") yw pwyllgor rheoli uned, neu grŵp o unedau, a sefydlir o dan y Rheoliadau hyn; ac

ystyr "uned" ("*unit*") yw uned cyfeirio disgyblion.

(**1**) O.S. 2005/2914 (Cy. 211) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3200 (Cy. 236)); a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (O.S. 2006/873 (Cy. 81)) a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/944 (Cy. 80)), a chan Reoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy. 206)), a chan Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1142 (Cy. 101)), a chan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2124 (Cy. 207)).

***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*